PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG

DYDD IAU, 6 HYDREF 2022

PRESENNOL Y Cynghorydd A.C. Jones (Cadeirydd) (Yn y Siambr)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):
L. Davies P. Hughes-Griffiths

Aelodau Cyfetholedig (Yn y Siambr):
A. Enoch

Cynghorwyr (Yn rhithwir):

S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom	L.M. Davies
B.W. Jones	D. Jones	M.J.A. Lewis	S.L. Rees
E. Skinner	M. Thomas		

Cynrychiolydd Ysgol ar gyfer Ysgol Bryn Teg (Yn y Siambr):
Mr G. Jones, Pennaeth

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorydd G. Davies - Aelod Cabinet dros Addysg a'r Gymraeg

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (Yn y Siambr):
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
A Thomas, Pennaeth y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Roedd y Swyddogion canlynol yn bresennol yn y cyfarfod (Yn rhithwir):
S. Davies, Pennaeth Mynediad i Addysg
A. Rees, Pennaeth Cwricwlwm a Llesiant
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
A. Eynon, Prif Gyfieithydd

Siambr - Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 11.21 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan F. Healy-Benson, y Cynghorydd S. Godfrey-Coles a V. Kenny.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL GAN GYNNWYS UNRHYW CHWIPIAU PLEIDIAU A RODDIR MEWN YMATEB I UNRHYW EITEM AR YR AGENDA.

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch buddiannau personol na chwip waharddedig.

3. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

4. SESIYNAU YMGYSYLLTU YSGOLION

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor a oedd yn esbonio bod strwythur amgen, ar ffurf sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ar-lein, wedi'i gyflwyno i gymryd lle ymweliadau ysgol dros dro yn ystod pandemig Covid-19, a fyddai'n galluogi'r Pwyllgor i barhau â'i swyddogaeth gwerthuso a gwella ysgolion. Yn hyn o beth, roedd y Pwyllgor yn gobeithio y byddai ymweliadau safle yn ailddechrau yn ystod 2023.

Ar hynny, cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Bennaeth Ysgol Bryn Teg a oedd yn canolbwyntio ar y ffordd yr oedd Ysgol Bryn Teg wedi cefnogi lles disgyblion, teuluoedd a staff ers Covid-19. Roedd y cyflwyniad yn manylu ar y daith gwella sylweddol a gyflawnwyd yn yr ysgol, er gwaethaf heriau ariannol, i ddod yn hynod effeithiol o ran ei dysgu a'i threfniadaeth, ac roedd wedi croesawu newid er mwyn cyflawni diwylliant o ragoriaeth.

Roedd y pwyntiau allweddol a gafodd sylw yn y cyflwyniad yn cynnwys canfyddiadau arolygiad Estyn a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2022 yn y meysydd canlynol:

Arweinyddiaeth

- Roedd Arweinyddiaeth a Rheolaeth effeithiol yn cael eu dangos ym mhob rhan o'r ysgol, a oedd yn cael eu hwyluso drwy gyfathrebu agored a thryloyw i gefnogi anghenion disgyblion.
- Roedd awyrgylch o garedigrwydd, cynhwysiant ac anogaeth yn cael ei ymgorffori yn yr ysgol ac roedd hynny wedi cyfrannu at y gwelliant sylweddol o ran lles a safonau disgyblion.
- Roedd rolau a chyfrifoldebau clir wedi'u diffinio'n dda ar waith ac yn cael eu llunio yn ôl dull seiliedig ar gryfderau a buddsoddiad priodol yn natblygiad staff.
- Roedd dull blaengar a rhagweithiol o wneud penderfyniadau yn cael ei gefnogi gan Lywodraethwyr yr Ysgol. Roedd cyllid grant wedi'i ddyrannu i wella'r ddarpariaeth anogaeth yn yr ysgol, penodi Ymarferydd Iechyd Meddwl a Swyddog Cynhwysiant Teuluol a phrynu beiciau trydan a bysiau mini trydan i gefnogi a gwella teithiau ysgol.

Gofal, Cymorth ac Arweiniad

- Roedd gan yr ysgol ethos cynhwysol, gyda dull tîm o amgylch y teulu yn seiliedig ar barch gan y naill at y llall ymhlith y staff, disgyblion a rhieni/gwarcheidwaid.
- Roedd gwerthoedd craidd yr ysgol yn canolbwyntio ar y meysydd lles, annibyniaeth a pharch.
- Roedd rhwydweithiau effeithiol wedi'u sefydlu gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys ysgolion eraill a gwasanaethau cymdeithasol, a oedd wedi arwain at gyflwyno platfform diogelu.
- Roedd darpariaeth gadarn ar waith ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a oedd yn cael ei hwyluso gan Gydlynydd ADY.
- Roedd amrywiaeth o ymyriadau ac asesiadau wedi'u sefydlu yn yr ysgol i ychwanegu gwerth a dangos cynnydd mesuradwy.

Profiadau Dysgu ac Addysgu

- Roedd cwricwlwm eang a chytbwys wedi'i gyflwyno gydag amrywiaeth o fentrau a grwpiau disgyblion ar draws yr ysgol.
- Roedd buddsoddiad priodol wedi'i wneud o ran datblygiad staff, gyda gwerth ychwanegol drwy hyfforddiant staff a rennir a chydweithio ag asiantaethau ac ysgolion eraill i rannu arferion gorau, hyfforddi a mentora.

Lles ac Agweddau at Ddysgu

- Roedd Swyddog Arweiniol Lles, â chyfrifoldeb am iechyd a lles, wedi bod yn allweddol i gymuned yr ysgol yn ystod pandemig Covid-19.
- Roedd cynllun gwaith o'r enw 'jigsaw' wedi'i roi ar waith, a oedd yn cyd-fynd â'r cwricwlwm newydd, gyda'r nod o gynnig dull blaengar a chyfannol i ddiwallu anghenion disgyblion yn yr ysgol.
- Roedd perthnasoedd wedi'u gwella drwy bolisi, ymchwil yn seiliedig ar weithredu a dathlu cyflawniadau, ac roedd hyn wedi'i gryfhau ymhellach gan Lywodraethwyr Ysgol cefnogol.
- Roedd strwythurau cymorth anffurfiol a ffurfiol ar waith i staff, gan gynnwys cyflwyno diwrnodau lles yn ddiweddar.
- Roedd cynrychiolaeth ar fforymau lleol a chenedlaethol yn cynorthwyo'r ysgol i fynd i'r afael ag anghenion cymuned yr ysgol i wella iechyd meddwl plant; roedd y rhain yn cynnwys Fforwm Llesiant yr Awdurdod Lleol a'r Fforwm 'Place2Be'.

Dysgu

- Roedd yr ysgol yn gallu dangos y cynnydd a wnaed gan y rhan fwyaf o ddisgyblion, er gwaethaf mannau cychwyn is na'r cyfartaledd i'r rhan fwyaf o blant.
- Roedd staff a disgyblion yn flaenllaw o ran y rhaglen ddysgu ac yn cymryd rhan lawn yn y broses.
- Roedd amgylchedd dysgu mewnol ac allanol rhagorol ar waith, ac roedd dull arloesol, sy'n canolbwyntio ar atebion, a mecanwaith monitro wedi'u mabwysiadu i sicrhau bod y cwricwlwm yn diwallu anghenion cymuned yr ysgol.
- Roedd gan y staff medrus ac angerddol yn yr ysgol wybodaeth ragorol am eu disgyblion.
- Roedd gan yr ysgol gysylltiadau â rhaglenni a mentrau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys her ysgolion cynradd 'Formula 1', rhaglen ddarllen 'Pie Corbett', cynllun Mathemateg 'White Rose' a rhaglen arweinyddiaeth ragorol 'Heads Up'.

Roedd y prif heriau a phwysau a nodwyd gan yr ysgol yn gysylltiedig â chynnydd mewn plant ag anghenion ychwanegol, yr argyfwng costau byw, cyllidebau llai a'r orddibyniaeth ar gyllid grant. Hefyd, barnwyd bod mynediad at wasanaethau o ansawdd, yn unigol ac ar y cyd, yn anoddach yn dilyn pandemig Covid-19.

Cyfeiriodd aelod at yr anawsterau o ran gallu ysgolion i flaengynllunio o fewn cyd-destun cyllidebau amrywiol oherwydd y ddibyniaeth ar gyllid grant ac awgrymodd y gellid cyflwyno rhagor o ohebiaeth i Lywodraeth Cymru i bwysleisio'r cyfle i symleiddio'r cyllid a ddarperir i alluogi ysgolion i ddiwallu'r anghenion amrywiol ar draws cymunedau.

Cyfeiriwyd at gyflwyno prydau ysgol am ddim yng Nghymru a thynnwyd sylw gan y Pennaeth at bryderon na fyddai rhieni / gwarcheidwaid yn gwneud cais am

brydau ysgol am ddim mwyach, a fyddai'n cael effaith ar lefel y cyllid Grant Datblygu Disgyblion (PDG) fyddai'r ysgol yn ei gael. Rhoddodd swyddog sicrwydd fod y mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor a bod sylwadau wedi cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn hyn o beth.

Tynnodd aelod sylw at arolwg a gynhaliwyd gan y Comisiynydd Plant yn ystod 2021 a oedd yn nodi bod mwy o ddisgyblion yn teimlo'n llai hyderus am eu dysgu ac felly canmolwyd Ysgol Bryn Teg ar ddarparu cymorth ymyrraeth gynnar i'w disgyblion. Mewn ymateb i ymholiad ynghylch y cyfle i ddysgu ychwanegol ddigwydd yn yr awyr agored er mwyn meithrin gwytnwch a hyder dysgwyr, cyfeiriodd y Pennaeth at gyflwyno ysgol goedwig yn Ysgol Bryn Teg i alluogi disgyblion i elwa ar y manteision iechyd ychwanegol sy'n gysylltiedig â dysgu mewn amgylchedd ymysg natur a bywyd gwyllt.

Cyfeiriwyd hefyd at yr arolwg PASS a gynhaliwyd yn Ysgol Bryn Teg i asesu galluoedd dysgu canfyddedig disgyblion ac er mwyn mapio ymyriadau priodol. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Plant grynodeb o'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi a gwella lles plant yn gynharach, gan gynnwys rhaglen Area 43 a gwasanaethau cwnsela.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn.

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A PHLANT 2021/22

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol ynghylch y gwaith a gyflawnwyd gan y Pwyllgor yn ystod blwyddyn y cyngor 2021/22. Roedd yr adroddiad wedi'i baratoi'n unol ag Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor ac roedd yn rhoi trosolwg o'r rhaglen waith a'r materion allweddol dan sylw, gan gynnwys hefyd unrhyw faterion a gyfeiriwyd at neu gan y Cabinet, adolygiadau Gorchwyl a Gorffen, sesiynau datblygu a phresenoldeb aelodau.

Cyfeiriwyd at gywiriad teipograffigol i adran 6.2.3 yr adroddiad a fyddai'n cael ei ddiweddaru i ddangos bod y pwyllgor wedi ystyried ei adroddiad yn *2021*.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad, yn amodol ar wneud y gwelliant teipograffigol i adran 6.2.3 yr adroddiad.

6. BLAENGYNLLUN GWAITH Y PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG, POBL IFANC A'R GYMRAEG AR GYFER 2002/23

Bu'r Pwyllgor yn adolygu ei Flaengynllun Gwaith drafft ar gyfer 2022/23, a ddatblygwyd yn dilyn sesiwn datblygu anffurfiol y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 1 Medi 2022.

Rhoddwyd sylw i nifer o arsylwadau ac ymholiadau, fel a ganlyn:

- Pwysleisiwyd bod y Blaengynllun Gwaith yn ddogfen hyblyg y gellid ei diweddaru yn ôl y gofyn trwy gydol y flwyddyn wrth i wybodaeth newydd ddod i'r amlwg. Yn benodol, nodwyd y byddai'r Blaengynllun Gwaith yn

cael ei adolygu a'i ddiweddaru, yn ôl y gofyn, yn dilyn cyhoeddi Blaengynllun Gwaith y Cabinet.

- Gwnaed cais am gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch y Broses Ymgynghori ar Drefniadaeth Ysgolion yn y Blaengynllun Gwaith.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo Blaengynllun Gwaith y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg 2022/23, yn amodol ar gynnwys adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr argymhellion gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch y Broses Ymgynghori ar Drefniadaeth Ysgolion.

7. EGLURHAD AM BEIDIO Â CHYFLWYNO ADRODDIAD CRAFFU

Cafodd y Pwyllgor eglurhad am beidio â chyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cyngor ar Amcanion Llesiant.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rheswm dros beidio â chyflwyno'r adroddiad.

8. EITEMAU AR GYFER Y DYFODOL

Cafodd y Pwyllgor restr o'r eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yn ei gyfarfod nesaf ar 1 Rhagfyr 2022. Eglurwyd i'r Pwyllgor, yn dilyn ad-drefnu portffolios y Cabinet, y byddai'r Aelod Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i gyflwyno adroddiad ar Gynllun Cyfiawnder Ieuenctid Sir Gaerfyrddin.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi'r rhestr o eitemau ar gyfer y dyfodol a oedd i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf ar 1 Rhagfyr 2022.

9. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MAWRTH 2022

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 16 Mawrth, 2022 yn gywir.

_____ _____

CHAIR **DATE**